# Diploma Mynediad i Addysg Uwch: cynorthwyo â phontio dysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru

Victor Morgan, Rheolwr Mynediad i Addysg Uwch, Agored Cymru

Claire Swales, Swyddog Diploma Mynediad i AU, QAA

## Diploma Mynediad i AU

Mae'r Diploma Mynediad i AU (MiAU) yn gymhwyster ôl-16 Lefel 3 (sy'n cyfateb i'r Fagloriaeth Gymreig) sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu'r cymwysterau angenrheidiol i ddysgwyr sy'n oedolion sydd am fynd i addysg uwch (AU) yn y maes pwnc y maent yn dymuno ei ddilyn.

Os astudir yn llawn-amser, gellir cwblhau'r MiAU mewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau Diploma Mynediad i AU, gall myfyrwyr fynd ymlaen i astudio ar lefel uwch gyda darparydd AU, a allai fod yn radd neu'n gymhwyster lefel uwch arall ar Lefel 4 neu uwch.

Mae Diplomâu Mynediad i AU yn cael eu cydnabod yn eang gan ddarparwyr AU ledled y DU ac, ers mis Medi 2017, maent wedi'u cynnwys yn y tariff pwyntiau ar gyfer UCAS. Maent yn arwain at gymhwyster annibynnol ac mae'r ffaith y gellir eu trosglwyddo'n denu dysgwyr sy'n dymuno archwilio opsiynau ar gyfer dilyniant yn hytrach nag ymrwymo i ddarparydd AU penodol trwy flwyddyn sylfaen.

Cymerodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) ofalaeth dros y Diploma Mynediad i Addysg Uwch ym 1997. Mae QAA yn arfer eu cyfrifoldeb dros reoleiddio'r Diploma drwy eu Cynllun Cydnabyddiaeth.[1] O fewn y fframwaith rheoleiddio hwn, mae QAA yn rhoi awdurdod i sefydliadau ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Gelwir sefydliad sydd wedi'i awdurdodi gan QAA at y dibenion hyn yn Asiantaeth Dilysu Mynediad (ADM).

O'r naw ADM sy'n gweithredu ledled y DU, Agored Cymru sydd fwyaf gweithgar yng Nghymru, gyda 15 o ddarparwyr wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd i gyflwyno'r Diploma Mynediad i AU. Cofrestrodd 36,183 o fyfyrwyr i astudio MiAU yn y DU yn 2023-24,[2] ac o'r rhain roedd 1,486 yn astudio gyda darparydd a ddilyswyd gan Agored Cymru.

Dylid nodi y gall dysgwyr yng Nghymru ddewis teithio i astudio y tu allan i Gymru, neu astudio o bell trwy un o'r 35 o ddarparwyr dysgu MiAU ar-lein. – mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n bosibl y byddant wedi'u cofrestru gydag ADM heblaw Agored Cymru.

---

1 Mae mynediad i AU hefyd yn cael ei reoleiddio gan sefydliad Cymwysterau Cymru, y mae gan QAA Femorandwm o Ddealltwriaeth â nhw

2 Daw'r ffigurau o adroddiadau ADM, yr Adran Addysg ac UCAS. Am fanylion pellach ac am gyd-destun ychwanegol ar gyfer y DU, ewch i: https://www.accesstohe.ac.uk/regulating-access/statistics

**Darparwyr MiAU Agored Cymru 2023-24**

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Llandrillo
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Meirion-Dwyfor
- Coleg Menai
- Coleg Penybont
- Coleg Powys
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Sir Gâr
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp Colegau NPTC
- Coleg Merthyr Tudful

**Dysgwyr Mynediad i Addysg Uwch**

Mae'r Diploma yn cael ei gydnabod yn eang am ei rôl wrth ehangu cyfranogiad a denu oedolion (19 oed+) nad ydynt wedi cael y cyfle i gyflawni cymhwyster Lefel 3 yn eu maes pwnc dewisol. Yng Nghymru, mae wyth o bob deg (81%) o ddysgwyr yn nodi eu bod yn fenywod ac mae pedwar o bob deg (38%) wedi datgan fod ganddynt angen dysgu neu anabledd. Mae bron i hanner y dysgwyr Mynediad i AU yng Nghymru (49%) yn dod o ardal anfantais gydnabyddedig, sy'n adlewyrchu statws economaidd-gymdeithasol rhannau o'r wlad ac yn dyst i'r cyfle am newid bywydau y mae'r Diploma yn ei greu i unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.




**Y Diploma MiAU**

Mae pob Diploma MiAU yn cynnwys 60 credyd sydd fel arfer yn gofyn am 600 awr o astudio dan arweiniad tiwtor ac yn annibynnol dros gyfnod o flwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser.[3]
Yn ystod eu cwrs, gall dysgwyr ddisgwyl astudio tua 15 uned, pob un yn amrywio o ran maint o 3 i 9 credyd. Nid yw 15 credyd yn cael eu graddio ac fe'u defnyddir fel cyfleoedd i ddatblygu sgiliau academaidd a phroffesiynol. Mae 45 credyd yn cael eu graddio ar sail Llwyddo, Canmoliaeth, Rhagoriaeth ar draws tair safon graddio:

- ✓ Gwybodaeth a dealltwriaeth
- ✓ Sgiliau sy'n benodol i'r pwnc
- ✓ Sgiliau trosglwyddadwy.

Mae ADM a darparwyr yn cydweithio i bennu deilliannau dysgu, cynnwys cyrsiau a dulliau asesu, yn seiliedig ar Fanyleb y Diploma cenedlaethol ac wedi'u llywio gan anghenion lleol.

Ar gyfer Mynediad i AU (Meddygaeth) mae yna Ddisgrifiad Pwnc[4] a ddatblygwyd gan QAA mewn cydweithrediad â'r Cyngor Ysgolion Meddygaeth a'r Cyngor Meddygaeth Cyffredinol. Pwrpas y Disgrifiad Pwnc yw diffinio'r cynnwys gofynnol ar gyfer y teitl penodol hwn.

---

3 Mae cyfran gynyddol o ddysgwyr MiAU yn astudio'n rhan-amser; yng Nghymru mae tua un o bob deg dysgwr yn astudio'n rhan-amser.
4 Mae QAA hefyd wedi datblygu Disgrifiad Pwnc ar gyfer Mynediad i AU (Nyrsio) a Mynediad i AU (Proffesiynau Iechyd). Dim ond Diplomâu sy'n cydymffurfio all ddefnyddio'r teitlau penodol hyn.

Mae'r Disgrifiad Pwnc yn darparu gwybodaeth ynghylch y meysydd astudio disgwyliedig a'r hyn a argymellir i gynorthwyo â dilyniant i Feddygaeth ar lefel AU, ond mae hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gynllunio'r Diploma. Dylai'r Disgrifiad Pwnc hefyd roi hyder i staff derbyniadau AU y bydd myfyriwr sydd wedi cyflawni Mynediad i AU (Meddygaeth) wedi cwmpasu'r cynnwys penodedig.

- Cyfrifiadura Cymhwysol
- Celf a Dylunio
- Gwasanaethau Busnes ac Ariannol
- Cwnsela a Seicoleg*
- Biowyddorau
- Peirianneg a Gwyddor Ffisegol
- Gofal Iechyd
- Gwyddor Iechyd
- Dyniaethau
- Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol
- Meddygaeth
- Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd*
- Plismona
- Gwyddoniaeth
- Gofal Cymdeithasol
- Gwyddorau Cymdeithasol

Yn ddiweddar, ychwanegodd Agored Cymru ddau Ddiploma MiAU newydd (*) at eu portffolio gan ddod â'r cyfanswm i 16 Diploma mewn ystod eang o feysydd pwnc.

"Mae ein 16 Diploma yn cwmpasu ystod eang o feysydd pwnc sy'n cynorthwyo â dilyniant i AU ledled y DU. Anogir ein darparwyr hefyd i gynnig datblygu Diplomâu newydd lle bo angen. Mae ein dull hyblyg o gyflwyno ac asesu (gan gynnwys cyfunol ac ar-lein) a'n cefnogaeth ragweithiol yn caniatáu i ddarparwyr ganolbwyntio'n llawn ar eu dysgwyr."
Agored Cymru

**Cefnogi oedolion yng Nghymru i symud ymlaen i AU a llwyddo**

Nid oes y fath beth â dysgwr Mynediad i AU 'nodweddiadol'. Maent yn dod o bob cefndir ac yn wynebu heriau gwahanol. Gall myfyrwyr MiAU sy'n astudio gyda darparydd Agored Cymru ddisgwyl dysgu mewn grwpiau bach, croesawgar a chael cyswllt rheolaidd â staff addysgu a chymorth sy'n gallu cynnig cefnogaeth academaidd a bugeiliol penodol a sensitif i gyd-destun. Yn 2023-24 roedd 41% o ddyfarniadau Agored Cymru yn gyfwerth â phroffil ABB, sy'n gymharol â chanlyniadau Mynediad i AU a Safon Uwch ledled y DU.[5]




. "Wnes i ddim parhau â fy ail flwyddyn o Safon Uwch oherwydd salwch difrifol — roedd cwblhau'r cwrs Mynediad yn ymddangos fel opsiwn da er mwyn gallu mynd i'r brifysgol o hyd. Os oes gennych chi'r amser i wneud y cwrs ac rydych chi eisiau mynd i'r brifysgol, yna mae'r cwrs hwn yn berffaith."

Nid oedd iechyd Kamal Shah yn caniatáu iddo gwblhau ei gyrsiau Safon Uwch, a arweiniodd at gredu nad oedd prifysgol yn opsiwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w gwrs Mynediad i AU (Biowyddoniaeth) cynigiwyd lle iddo astudio Bioleg ym Mhrifysgol Caerfaddon.

---

5 Pob un o'r 60 credyd ar raddfa Rhagoriaeth; neu rhwng 30 a 44 credyd ar raddfa Rhagoriaeth gyda'r holl gredydau sy'n weddill yn deilwng o Ganmoliaeth. Ystyrir bod y proffiliau gradd hyn yn gyfwerth ag ABB ar Safon Uwch a disgwylir iddynt fod o fewn +/- 10 pwynt i 29.6 – cyfran y myfyrwyr Safon Uwch sy'n cyflawni proffil ABB yn hanesyddol.

Mae'r Diploma Mynediad i AU yn cynnig llwybr cyflenwol i oedolion sy'n dymuno symud ymlaen i AU, yn enwedig y rhai sy'n ceisio ailhyfforddi neu uwchsgilio mewn sectorau allweddol. O'r 50 cwrs Diploma a gynigiwyd gan Agored Cymru yn 2023-24, roedd 18 yn ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, gwasanaeth cyhoeddus a gofal; roedd y 13 arall yn ymwneud â'r gwyddorau cymdeithasol. Roedd pob un o'r 12 Diploma gwyddoniaeth a mathemateg mewn Biowyddoniaeth neu Wyddor Iechyd. Dewisodd pedwar o bob pump o ddysgwyr Agored Cymru (82% yn 2022/23) a aeth ymlaen i AU aros yn eu hardal leol ar gyfer eu hastudiaethau, gan gefnogi economi Cymru wrth wneud hynny.

Mae model Mynediad i AU:

- ✓ wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer oedolion, gyda hanes o ddilyniant i AU
- ✓ wedi'i gyflwyno gan golegau, yn perthyn i'w gymuned ac yn ymatebol yn rhanbarthol
- ✓ wedi'i alinio â'r gweithlu, yn enwedig mewn sectorau gwasanaeth cyhoeddus sy'n wynebu prinder
- ✓ yn cael ei gydnabod gan ddarparwyr AU ledled y DU.

Mae'r Diplomâu a gynigir gan Agored Cymru wrth galon y ddarpariaeth MiAU yng Nghymru, ac felly mae ganddynt botensial i wella dewis dysgwyr a darpariaeth ranbarthol trwy adeiladu ar gryfderau colegau Cymru fel darparwyr Diploma Mynediad i AU dibynadwy.

> “Mae mynediad i AU yn gymhwyster i'r rhai sydd ag uchelgais, sy'n chwilio am gyfle, sy'n frwdfrydig ac yn ymgysylltu ac sydd angen ymwneud â system addysg a all ddiwallu eu hanghenion penodol."
> Mae'r Diploma Mynediad i AU yn gweithio i gael pobl i mewn i AU a'u helpu i lwyddo...
> mae'n cynnig cymorth i bob myfyriwr, waeth o ble maen nhw'n dod neu beth maen nhw am ei wneud.
> Mae'n gymhwyster aeddfed, effeithiol a gwydn sy'n cyflawnicanlyniadaui ddysgwyr a chymdeithas, a dyna pam mae'r QAA wedi ymrwymo i'w ddyfodol.”
>
> **Rob Stroud, Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant, QAA**

**Rhai o gyn-fyfyrwyr MiAU Agored Cymru**



Dim ond pum mlynedd ar ôl i ddamwain a newidiodd ei bywyd ei gadael mewn coma gyda llosgiadau difrifol, dyfarnwyd Mynediad i AU (Biowyddoniaeth) i Catrin Pugh a sicrhaodd le i astudio ffisiotherapi yng Ngholeg y Brenin Llundain.
Mae Catrin bellach yn ffisiotherapydd gyda Sefydliad Katie Piper ac yn siaradwr ysgogol.

Roedd Kelly Osborne yn gweithio ym maes gofal iechyd yn ystod Covid a phenderfynodd ailhyfforddi. Cafodd ei chydnabod fel Dysgwr y Flwyddyn am Gyflawniad Academaidd Rhagorol gan Agored Cymru a Gwobrau cenedlaethol Keith Fletcher yn 2023, cyn symud ymlaen i Brifysgol Bangor i astudio bydwreigiaeth. Meddai: *"Roeddwn i wrth fy modd â'r cwrs* Mynediad *ac fe roddodd gymaint o angerdd newydd i mi am ddysgu; roedd yn bendant yn un o'r pethau gorau i mi ei wneud ers tro! Roedd y dosbarth yn llawn pobl ddiddorol o bob oed gyda llawer o brofiadau bywyd gwahanol, ac roedd yn awyrgylch cefnogol hyfryd iawn i ddysgu ynddo."*






Aeth Emma Hughes, Dysgwr y Flwyddyn Agored Cymru 2022, ymlaen i radd nyrsio anabledd dysgu ym Mhrifysgol De Cymru, a dyfarnwyd Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn y *Nursing Times* iddi yn 2025. Roedd manyldeb academaidd ei chwrs MiAU yn golygu iddi gyrraedd y brifysgol yn barod i fwrw ati ar unwaith, yn enwedig mewn modiwlau fel anatomeg a ffisioleg.

"Gwnaeth y staff MiAU fwy na dim ond ein rhybuddio ni y byddai'n gam i fyny – fe wnaethon nhw ein paratoi ni ar ei gyfer." … Byddwn i'n eistedd mewn darlithoedd yn y brifysgol ac yn meddwl, 'Dw i'n gwybod hyn, dw i wedi gwneud hyn eisoes.' Gwnaeth yr hyder hwnnw gymaint o wahaniaeth."

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar [wefan QAA Cymru](#).

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research